

BETH YW NODAU DYNEIDDIAETH AR GYFER CYMDEITHAS?

Mater i ni yw gwneud y byd yn lle gwell. Nid wyf i'n credu mewn duw nac mewn gweddïo. Nid wyf i'n credu y daw cymorth o unrhyw le arall heblaw gan bobl eraill. Os ydym ni eisiau i bethau wella, mae angen i ni ei wneud ein hunain, tra bod gennym ni'r cyfle. Ein **cyfrifoldeb** ni ydyw.



ALEX WILLIAMS

Dyma'r unig fywyd sydd gennym ni. Nid wyf i'n credu y caiff camweddau eu cywiro mewn rhyw fywyd yn y dyfodol. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gefnogi tegwch a hapusrwydd yn y **presennol**. Mae angen i ni **weithredu**. Os byddwn yn gweld gwahaniaethu ac anghyfiawnder mae angen i ni ymrwymo ein hunain i newid cymdeithas. Ni allwn ni wneud popeth ar ein pen ein hunain, ond gallwn ni i gyd helpu i wneud gwahaniaeth.



GUY HIRST

Mae bodau dynol yn rhannu llawer o anghenion, dyheadau a theimladau. Gall y rhain ein helpu i weld pa fath o fyd y dylem ni weithio tuag ato. Rydym ni i gyd eisiau bod yn **rhydd** i ddewis sut yr ydym yn byw. Rydym ni i gyd yn dymuno cael ein trin yn **deg** ac yn **garedig**. Felly os ydym ni'n hyrwyddo'r nodau hyn, yna bydd bywyd yn well i bawb.



LAUREN

O ran sut yr ydym yn trin ein gilydd, mae angen i ni gydnabod ein bod ni i gyd yn fodau dynol yn gyntaf. Ni ddylem ni drin pobl yn wahanol yn ôl eu rhyw, lliw croen, cenedligrwydd, rhywioldeb, anabledau, na chrefydd neu gred. Gall cydnabod ein bod ni i gyd yn ddynol ein

helpu i weld y dylem ni drin pobl yn **gyfartal**. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a'u bod yn cael y cyfleoedd i fyw eu bywydau fel y byddan nhw'n ei ddymuno.



LINDSAY

Rwy'n credu bod **hawliau dynol** yn hanfodol i sicrhau bod gan bawb y **rhyddid** i fyw bywyd hapus a chyflawn. Dylem ni i gyd gael y rhyddid i gredu'r hyn yr ydym yn dymuno ei gredu a dweud yr hyn yr ydym yn dymuno ei ddweud. Dylai fod gennym ni i gyd yr hawl i ofal iechyd, i addysg, i gael caru a phriodi pwy yr ydym ni'n dymuno, a chael dweud ein dweud ynghylch sut y caiff ein gwlad ei chynnal.



IAN

Rydw i'n **seciwlarwydd**. Mae hynny'n golygu fy mod i'n credu yn y rhyddid i gredu ac y dylai pawb gael eu trin yn gyfartal ar sail crefydd neu gred. Ni ddylid trin unrhyw safbwynt crefyddol neu ddigrefydd yn arbennig ac ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd ei fydolwg. Os ydym ni i gyd yn rhydd i gredu'r hyn yr ydym yn ei ddymuno ac yn cael ein trin yn deg, yna rydym ni'n debygol o fod yn hapusach a byw gyda'n gilydd yn fwy **heddychlon**.



JULIAN